




National
Fostering
Framework
Fframwaith
Maethu
Cenedlaethol

FFRAMWAITH DYSGU A DATBLYGU I OFALWYR MAETH AR ÔL CYMERA- DWYAETH



MAWRTH 2019





“

Mae natur rôl gofalwr maeth yn gallu ei wneud yn anodd ar brydiau i roi blaenoriaeth i gyfleoedd hyfforddiant, dysgu a datblygu, ond gall wneud byd o wahaniaeth i'ch lles eich hunain a lles y plentyn/plant yr ydych chi'n gofalu amdanynt.

Er bod maethu'n gofyn am berson arbennig iawn, mae angen y teclynnau cywir arnom ni i gyd i'n paratoi ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Gall hyn gael ei wneud dim ond trwy gyfleoedd i ddysgu a rhwydweithio'n barhaus.

”

BETH YW'R DDOGFEN HON?

Un o ffrydiau gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC) oedd datblygiad Fframwaith Dysgu a Datblygu ar ôl Cymeradwyaeth i ofalwyr maeth ar draws Cymru.

Arweiniodd y Rhwydwaith Maethu ac AFA Cymru ar ddatblygiad Fframwaith Dysgu a Datblygu. Cafwyd ymgynghoriad helaeth gyda gofalwyr maeth ar draws Cymru ac roedd hyn yn gyfraniad sylweddol i'r gwaith yma.

Roedd gofalwyr maeth yn unfrydol eu barn bod hyfforddiant cyn cymeradwyaeth o safon uchel yn gyson ond doedd hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth ddim cystal. Roedd gofalwyr maeth ar draws Cymru yn ystyried nad oedd ganddyn nhw'r un cyfleoedd i gael hyfforddiant a datblygiad, oherwydd y gwahaniaethau rhwng rhaglenni hyfforddiant lleol.

BETH YW DIBEN Y DDOGFEN?

- Mae'n rhoi dull cyson o ddysgu a datblygu ar ôl dymeradwyaeth i ofalwyr maeth yng Nghymru
- Mae'n rhoi canllawiau ar sut mae'r Fframwaith Dysgu a Datblygu a'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru'n cyd-blethu
- Mae'n creu peirianwaith ar gyfer casglu ac adolygu llwyddiannau Dysgu a Datblygu gofalwyr maeth yn ogystal â chanfod anghenion at y dyfodol
- Mae'r creu llwybr clir i ofalwyr maeth i fapio'u datblygiad proffesiynol eu hunain
- Mae'n cynnig adnodd i weithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo drafod anghenion dysgu a datblygu gyda gofalwyr maeth
- Hybu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu a datblygu
- Mae'n gosod disgwyliaid ar ofalwyr maeth i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu eu hunain
- Mae'n creu safonau clir a thryloyw i geisio'u cyrraedd

BETH SY'N CAEL EI GYNNWYS?

- Y Fframwaith Dysgu a Datblygu gofalwyr maeth ar ôl cymeradwyaeth
- Cofnod Dysgu Personol a Chynllun Datblygu Gofalwyr Maeth
- Canllawiau ar sut i gwblhau'r Cofnod Dysgu Personol a Chynllun Datblygu
- Canllawiau ar sut mae trin y Fframwaith Dysgu a Datblygu FfMC a'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

PRYD FYDD YN CAEL EI GWEITHREDU?

- Bydd yn cael ei chyflwyno'n raddol
- Bydd pob Rheolwr Datblygu Rhanbarthol (RhDRh) FfMC yn arwain yn eu rhanbarthau o ran datblygu Cynllun Gweithredu.

FFRAMWAITH DYSGU A DATBLYGU I OFALWYR MAETH AR ÔL CYMERADWYAETH

DATGANIAD O WELEDIGAETH

“Mae teuluoedd maeth yng Nghymru’n cael cynnig cyfleoedd gwych i ddysgu sy’n cwrdd â’u hanghenion proffesiynol a phersonol, yn adlewyrchu eu profiad sy’n tyfu ac yn eu cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.”



Amcan y Fframwaith yw rhoi sail i ddull cenedlaethol sy’n gallu cynnal dull mwy cyson o ddysgu a datblygu ar gyfer gofalyr maeth ar draws Cymru. Y gobaith yw y bydd datblygiad dull mwy cyson i hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth i ofalwyr maeth yn rhoi llwyfan i wasanaethau maethu fanteisio i’r eithaf ar fuddion gweithio rhanbarthol, pe baen nhw’n dewis.

Mae’r Fframwaith yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth unigol i ddysgu a datblygu i ofalwyr maeth, wedi ei yrru gan amgylchiadau, cryfderau, gwendidau ac anghenion y plant y maen nhw’n eu maethu.

FFRAMWAITH AR GYFER DYSGU A DATBLYGU

Gall cyfleoedd dysgu gael eu darparu trwy gyrsiau hyfforddiant ffurfiol, ond hefyd trwy ddysgu ar-lein, mentora gan gymheiriaid, dysgu eich hunain neu ddysgu wrth ymarfer (e.e. trwy waith un wrth un gyda therapydd mewn perthynas â phlentyn penodol). Y pwynt allweddol yw:

“Sut gyfrannodd y gweithgaredd dysgu/datblygiad at eich gallu fel gofalwr maeth i gwrdd ag anghenion a gwella deilliannau i’r plentyn sydd yn eich gofal?”

Mae Dysgu a Datblygu yn cael eu hyrwyddo orau ble mae diwylliant y sefydliad yn un o ystyriaeth a dysgu parhaus. Mae gan ofalwyr maeth y profiad unigryw o fyw gyda phlant sydd mewn gofal, felly yn ogystal â chasglu gwybodaeth, mae angen iddyn nhw hefyd gael cyfle i ystyried eu profiadau eu hunain yng nghydestun y wybodaeth yma er mwyn hybu lleoliadau cadarnhaol, ond hefyd sicrhau eu lles fel teulu maeth.

TYSTIOLAETH O DDYSGU

Mae'r Cofnod Dysgu Personol a Chynllun Datblygu yn rhoi fformat ar gyfer dangos a chofnodi dysgu. Mae hyn yn cynnwys profiadau blaenorol o ddysgu yn ogystal â'r anghenion hynny sy'n cael eu hadnabod trwy asesiad, goruchwyliaeth barhaus a'r broses adolygu flynyddol.

Mae angen i wasanaethau maethu sicrhau bod eu prosesau a'u gweithdrefnau ar gyfer goruchwyliaeth ac adolygiad blynyddol yn adlewyrchu'r gofyn hwn. Bwriad y Datganiadau Deilliannau yw rhoi sail i werthuso effaith y digwyddiad dysgu.

GWERTHOEDD CRAIDD AR GYFER DYSGU A DATBLYGU

Mae Gwasanaethau Maethu'n gyfrifol am sicrhau fod cyfleoedd dysgu i ofalwyr maeth yn:

- Gyffrous ac yn gynhyrfiol
- Ar gael i bob dysgwr gan ddefnyddio cyfleoedd dysgu ffurfiol, hunan-dywysedig ac wedi eu cyfuno
- Cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n ystyried anghenion corfforol, iaith, daearyddiaeth, patrymau gwaith, gofal plant etc.
- Cael eu cyflenwi o fewn fframwaith o gyfleoedd cyfartal ac arfer gwrth-wahaniaethu
- Cynnwys cyfleoedd i hyfforddi ochr yn ochr â phobl broffesiynol eraill er mwyn cydnabod eu bod yn rhan o'r tîm o gwmpas y plentyn.



THE FFRAMWAITH DYSGU

CRAIDD: Mae'r cyfleoedd yma i ddysgu a datblygu yn cael eu hystyried yn sylfaen hanfodol i bob gofalwr maeth. Mae rhai deilliannau'n cael eu pennu yn y rheoliadau a bydd angen eu diweddarau yn unol â pholisi lleol. Efallai bydd angen cyfleoedd ychwanegol i ddysgu a datblygu ar ofalwyr maeth ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion y plant a phobl ifanc sydd yn eu gofal.

Datblygiad plant	Diogelu	Gofal Mwy Diogel a Honiadau	Cefnogi Addysg a Datblygiad
Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chyswllt	Cofnodi, Cyflwyno a Rhannu Gwybodaeth	Trosglwyddiadau i Blant a Phobl ifanc	Gwaith Taith Bywyd
Hyrwyddo Iechyd Da a Lles	Datblygu Sylfaen Gadarn a Hybu Ymlyniad	Deall Ymddygiad Heriol a Hyrwyddo Strategaethau Cadarnhaol	Eiriolaeth a Hawliau Plant
Iechyd a diogelwch	Cymorth Cyntaf	Deddfwriaeth Sylfaenol	Ymsefydlu Lleol (gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau)

YCHWANEGOL: Mae'r cyfleoedd yma i ddysgu a datblygu yn adeiladu ar y sylfaen graidd ac yn adlewyrchu anghenion datblygu gofalwyr maeth unigol.

Efallai bydd angen cyfleoedd ychwanegol i ddysgu a datblygu ar ofalwyr maeth ar unrhyw adeg i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion y plant a phobl Ifanc sydd yn eu gofal.

Cydnabyddir efallai y bydd angen cyfleoedd eraill y tu allan i'r fframwaith yma er mwyn cwrdd ag anghenion penodol.

Symud Plant Ymlaen at Fabwysiadu	Ymlyniad a Thrawma Uwch	Ail-rianta Therapiwtig	Diogelwch Digidol ac ymwybyddiaeth am y Cyfryngau Cymdeithasol
Maethu Meibion a Merched a Chynnwys y Teulu Estynedig	Gofalu am Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol	Strategaethau Uwch i Reoli Ymddygiad Heriol	Uwch Ofal mwy Diogel a Rheolaeth Risg
Cam-drin Plant yn Rhywiol	Pan Fydda i'n Barod	Hyrwyddo Annibyniaeth	Byw gyda'r rhai yn eu Harddegau
Chwarae Therapiwtig	Deall iechyd meddwl Plant a Phobl Ifanc	Gofalu am eich hunain ac am eich gilydd	Sylweddau a Dibyniaeth
Cam-drin Domestig	Llinellau Sirol	Sgiliau Llys	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

PENODOL: Efallai bydd angen i ofalwyr maeth gael cyfleoedd penodol ar gyfer dysgu a datblygu er mwyn cwrdd ag anghenion y plant sydd yn eu gofal neu eu datblygiad personol eu hunain. Gellir mynd at y rhain ar unrhyw adeg yn ystod eu taith trwy'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ar ôl Cymeradwyaeth.

Mae'r cyfleoedd penodol yma'n helaeth ond gallan nhw gynnwys:

Lleoliadau Plant a Rhieni	Seibiant Byr / Cefnogaeth Gofal	Plant a Phobl Ifanc sy'n Ceisio Lloches ar eu pennau'u hunain	Radicaleiddio
Gofalu am blant sydd wedi profi camdriniaeth rywiol	Gofalu am blant sydd ag anghenion penodol e.e. anabledau	Meithrin Newidiadau	Hyfforddi'r Hyfforddwyr
Maethu tra'n aros Prawf	Mentora Cymheiriaid	Tueddiad rhywiol ac ymwybyddiaeth o hunaniaeth rhyweddol	Rhyw a Pherthnasau

EGWYDDORION A SAFONAU AR GYFER DYSGU, DATBLYGIAD A HYFFORDDIANT I OFALWYR MAETH AR ÔL EU CYMERADWYO

Egwyddor 1

Mae'r fframwaith dysgu a datblygu ar ôl cymeradwyaeth y FfMC yn rhan o'r llwybr datblygiad proffesiynol i ofalwyr maeth yng Nghymru, sy'n cael eu cydnabod fel rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Safonau Lleiaf Dysgu a Datblygu

1.1 Mae dysgu, datblygiad a hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth yn adeiladu ar ben yr hyfforddiant cyn cymeradwyaeth ac yn hybu dealltwriaeth gofalwyr maeth o:

- Eu rôl, cyfrifoldebau a'u statws fel rhan o'r tîm o gwmpas y plentyn
- Eu rôl allweddol wrth hyrwyddo llesiant y plentyn yn ôl gofyn deddfwriaeth Gymreig

- 1.2 Mae'r rhaglen dysgu a datblygu ar ôl cymeradwyaeth yn rhoi gwybodaeth fel sail a chyfleoedd i ddangos gallu ar gyfer y Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- 1.3 Rhaid i ofalwyr maeth gael mynediad i gyfleoedd am hyfforddiant ychwanegol, er enghraifft:
 - Rhaglenni penodol fel Meithrin Newidiadau,
 - Hyfforddiant arbenigol i gwrdd ag anghenion grwpiau penodol fel lleoliadau rhieni a babanod neu blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain
- 1.4 Mae cynlluniau dysgu neu gynlluniau datblygiad proffesiynol ar gyfer gofalwyr maeth yn adlewyrchu anghenion dysgu a nodwyd yn ystod yr asesiad cyn cymeradwyaeth, arolygaeth a'r broses adolygu flynyddol. Dylai'r sesiynau goruchwyliaeth ac adolygu wedyn edrych am dystiolaeth fod dysgu wedi ei ymgorffori yn eu harfer.

Egwyddor 2

Mae dysgu a datblygu ar ôl cymeradwyaeth yn rhoi cyfleoedd i ofalwyr maeth a'u teuluoedd i elwa o rannu profiadau dysgu, ochr yn ochr â phobl broffesiynol fel rhan o'r tîm o gwmpas y plentyn.

Egwyddor 3

Mae gan hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth ansawdd a chynnwys cyson. Mae gofalwyr maeth yn gyfrifol am ysgogi eu hunain i ddatblygu a chyrraedd nodau dysgu personol.

Safonau Lleiaf Dysgu a Datblygu

- 2.1 Gall gofalwyr maeth a'u teuluoedd fynd at gyfleoedd hyfforddi amlddisgyblaeth gyda phobl broffesiynol eraill sy'n rhan o'r tîm o gylch y plentyn, fel:
 - Gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo
 - Gweithwyr cymdeithasol plant
 - Pobl broffesiynol mewn iechyd
 - Athrawon a Staff Cefnogi Dysgu
 - Y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol
- 2.2 Mae gofalwyr maeth profiadol a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn gallu cyfrannu'n werthfawr a dylid gwrandao arnyn nhw. Er enghraifft, fel cydhwyluswyr, siaradwyr gwadd neu drwy gefnogaeth gan gymheiriaid.
- 2.3 Mae cyfleoedd i ddysgu a datblygu ar ôl cymeradwyaeth yn cael eu hymestyn i'r teulu ehangach (e.e. plant genedigol)
- 2.4 Mae yna gyfleoedd i ofalwyr maeth gwblhau agweddau ar ddysgu a datblygu ar ôl cymeradwyaeth fel mintai.

Safonau Lleiaf Hyfforddiant

- 3.1 Mae cyrsiau a rhaglenni hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth wedi eu llunio o gwmpas amcanion dysgu clir a chyson
- 3.2 Mae hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth yn cynnwys:
 - Y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer y DU a Chymru
 - Canllawiau polisi ac arfer Cymreig gan gynnwys polisiau perthnasol yr ALL
 - Trosolwg damcaniaethol o'r pwnc
 - Ymchwil a/neu ystadegau diweddar
 - Enghreifftiau o arfer gorau e.e. astudiaethau achos
 - Sgiliau a thechnegau ymarferol
 - Amser am fyfyrddod personol
- 3.3 Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu i gwrdd â ffyrdd gwahanol o ddysgu
- 3.4 Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan i gwblhau gwerthusiad o'r cwrs ac i asiantaethau gael systemau i fonitro adborth a gweithredu mewn perthynas ag unrhyw broblemau sy'n codi.



FFRAMWAITH DYSGU A DATBLYGU

02

Mae'r teitlau yma a chanlyniadau dysgu wedi eu datblygu ar ôl ymgynghoriad gydag ymarferwyr a gofalwyr maeth ar draws Cymru fel rhan o'r gwaith o sefydlu Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Fe'u hawgrymir fel y lefel lleiaf o safonau ac efallai bydd gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth yn dewis mynd yn uwch.

Efallai bydd anghenion penodol plentyn mewn lleoliad yn llywio'r wybodaeth y mae ei hangen ar adeg arbennig mewn gyrfa gofalwr maeth. Ni fwriedir i'r canllaw yma gymryd lle rhyddid ynglŷn â pha hyfforddiant a chefnogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi gofal i blentyn ar unrhyw adeg benodol.

CRAIDD

Mae'r cyfleoedd yma i ddysgu a datblygu yn cael eu hystyried fel sylfaen hanfodol i bob gofalwr maeth.

Mae rhai deilliannau'n cael eu pennu yn y rheoliadau a bydd angen eu diweddarau yn unol â pholisi lleol.

Efallai bydd angen cyfleoedd ychwanegol i ddysgu a datblygu ar ofalwyr maeth ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion y plant a phobl ifanc sydd yn eu gofal.

Datblygiad Plant

- Bod â gwybodaeth o gerrig milltir allweddol mewn datblygiad plant i Blant a Phobl Ifanc (0-18)
- Bod wedi edrych i'r cysylltiad rhwng chwarae a datblygiad
- Bod wedi ystyried y ffactorau a all beri oedi neu ymyrryd yn natblygiad plentyn (e.e. profiadau gwael yn y blynyddoedd cynnar, effaith trawma a maeth).
- Deall yr angen i gwrdd â chyfnod datblygiad y plentyn yn hytrach na'u hoed cronolegol.
- Bod wedi ystyried dulliau gofalwyr maeth sy'n gallu cefnogi datblygiad Plant a Phobl Ifanc

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu: Adnabod cyfnod datblygiad y plentyn mewn lleoliad ac effaith eu profiadau yn y gorffennol ar hynny. Bydd y gofalwr maeth yn gallu defnyddio'r wybodaeth yma i addasu eu ffordd o fagu a rhoi gofal.

Diogelu

- Trafod y fath o gamdriniaethau y mae pobl ifanc yn gallu dioddef a bod yn ymwybodol o effaith hynny arnyn nhw
- Edrych i mewn i'r pynciau cyfredol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol a'r goblygiadau ar gyfer ymarfer
- Deall rôl pawb mewn diogelu plant a phobl Ifanc gan gynnwys rôl y gofalwyr maeth i atgyfeirio unrhyw bryderon
- Bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a phrosesau perthnasol a sut maen nhw'n gweithio'n ymarferol yn y gwasanaeth maethu i ofalwyr maeth

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio effaith cam-drin ac adnabod eu rôl o ddiogelu'r plentyn mewn lleoliad.

Gofalu Mwy Diogel a Honiadau

- Ystyried pam fod honiadau'n gallu digwydd mewn maethu
- Deall y broses ar gyfer rheoli cyhuddiadau yn erbyn gofalwyr maeth
- Gwybod pan gefnogaeth a gwybodaeth y dylai gofalwyr maeth eu cael os bydd cyhuddiad yn eu herbyn
- Adolygu arferion gofal mwy diogel y teulu maeth o ganlyniad i'r trafodaethau

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio pam fod cyhuddiadau'n gallu digwydd a thrafod eu harferion gofal mwy diogel.



Cefnogi Addysg a Datblygiad

- Adnabod yr anawsterau allweddol all effeithio addysg Plant a Phobl Ifanc mewn gofal
- Edrych ar effaith anghenion ymlyniad heb eu diwallu a thrawma ar allu plant i gyrraedd eu potensial addysgol
- Canfod ffyrdd o annog a chefnogi plant a phobl Ifanc gyda'u haddysg (gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, addysg bellach, hyfforddiant) a'u helpu i oresgyn anffodion

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod y ffyrdd o hyrwyddo addysg y plentyn yn y lleoliad

Gweithio gyda Theuluoedd Biolegol a Chysylltiad

- Deall y gofynion cyfreithiol mewn perthynas ag aelodau o deuluoedd biolegol
- Ystyried heriau gweithio gydag aelodau o deuluoedd biolegol a buddion cael perthynas gwaith cadarnhaol i bawb
- Ystyried y problemau sy'n codi pan fod plant yn trosglwyddo at deuluoedd biolegol
- Edrych yn ofalus ar bwysigrwydd cofnodi mewn perthynas â chysylltiad

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio'r hyn y maen nhw'n gallu gwneud i gefnogi'r plentyn yn y lleoliad i gael profiadau cadarnhaol gyda chysylltiad.

Cofnodi, Cyflwyno a Rhannu Gwybodaeth

- Ystyried pwysigrwydd cyfrinachedd mewn maethu a sut mae hynny'n gweithio'n ymarferol
- Trafod cadw cofnodion yn ddyddiol ac ymarfer gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn
- Ystyried sut all cofnodion gofalwr maeth gefnogi'r broses o gynllunio gofal
- Cynyddu sgiliau er mwyn cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd Plant mewn Gofal
- Edrych i mewn i sut all plant a phobl Ifanc gael eu cefnogi i gyfrannu at eu hadolygiadau Plant mewn Gofal

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Ysgrifennu cofnodion galluog a fydd yn cyfrannu at gynllunio a gofal y plentyn mewn gofal. Bod yn hyderus ynglŷn â gwerth rôl y gofalwr maeth wrth rannu gwybodaeth mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Trosglwyddiadau i Blant a Phobl Ifanc

- Ystyried effaith newid ar Blant a Phobl Ifanc
- Ystyried sut fydd trosglwyddiadau blaenorol yn effeithio ar rai yn y dyfodol
- Ystyried sut all hyn effeithio ar newidiadau dydd i ddydd fel dechrau'r ysgol neu fynd ar wyliau
- Dechrau ystyried newidiadau mewn lleoliad a ffyrdd o baratoi ar gyfer y rhain
- Edrych ar sut all gofalwr maeth helpu plentyn neu berson ifanc i reoli trosglwyddiadau o'r fath yna

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio sut y byddan nhw'n helpu'r plentyn mewn gofal i reoli'r newidiadau yn ei bywyd, gan ystyried profiadau yn y gorffennol.

Gwaith Taith Bywyd

- Deall arwyddocâd naratif i blant a phobl Ifanc wrth ddeall ac adeiladu eu hunaniaeth
- Deall y modd y gellir ymgymryd â gwaith taith bywyd i helpu plentyn neu berson ifanc ddeall beth sydd wedi digwydd iddyn nhw fel eu bod yn gallu prosesu'r profiadau yma'n well.
- Bod yn ymwybodol o rôl y gofalwr maeth wrth gyfrannu at y gwaith yma
- Bod wedi dechrau meddwl am sut mae rhannu gwybodaeth anodd mewn ffordd sensitif

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio'r hyn y byddan nhw'n ei wneud i gyfrannu at y gwaith taith bywyd i'r plentyn mewn gofal.

Hybu Iechyd Da a Lles

- Cynyddu gwybodaeth o'r deilliannau iechyd i blant a phobl Ifanc mewn gofal
- Cynyddu dealltwriaeth o bynciau iechyd penodol fel iechyd meddwl
- Datblygu dealltwriaeth o rôl y gofalwr maeth o ran hybu iechyd lles plant mewn gofal
- Sicrhau ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod eu dulliau o hybu iechyd a lles y plentyn mewn gofal yn unol â'u cynllun gofal a chefnogaeth.

Datblygu Sylfaen Gadarn a Hybu Ymlyniad

- Deall sut mae plentyn yn datblygu perthnasau ymlyniad
- Ystyried y mathau o ymlyniadau y mae plant yn gallu datblygu ac effaith hyn ar eu hymddygiad/datblygiad
- Bod yn ymwybodol o'r hyn y gall gofalwyr maeth ei wneud er mwyn hyrwyddo ymlyniad cadarn
- Adnabod yr angen i bob plentyn gael sylfaen gadarn a beth all gofalwyr maeth wneud i hybu hyn
- Ystyried effaith gofalu am blant sydd ag anawsterau o ran ymlyniad ar aelodau'r teulu a chydabod yr angen am hunanofal i holl aelodau'r teulu

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio patrymau ymlyniad y plentyn mewn gofal a sut allan nhw gynnig sylfaen gadarn i'r plentyn.

Deall Ymddygiad Heriol a Hybu Strategaethau Cadarnhaol

- Bod yn ymwybodol o ba ymddygiad sy'n cael ei ddisgwyl gan blant a phobl Ifanc ar gyfnodau gwahanol mewn datblygiad ac ystyried pam fod plant efallai'n ymddwyn mewn rhai ffyrdd
- Datblygu sgiliau ymarferol mewn adnabod ymddygiad a strategaethau i gefnogi hirhoedledd a sefydlogrwydd lleoliadau
- Deall yr angen i addasu eu hymddygiad a'u cyfathrebu eu hunain er mwyn dylanwadu ar ymddygiad y plant a phobl Ifanc y maen nhw'n gofalu amdanynt
- Deall yr angen i edrych ar ôl eu hunain er mwyn gallu ymateb yn briodol i'r plant a phobl Ifanc y maen nhw'n gofalu amdanynt

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod pam y gall y plentyn yn y lleoliad fod yn ymddwyn mewn ffordd benodol ac ystyried yr ymateb mwyaf priodol i hynny. Disgrifio sut maen nhw'n hybu ymddygiad y plentyn mewn ffordd gadarnhaol.

Eiriolaeth a Hawliau Plant

- Deall y cyd-destun cyfreithiol a pholisi mewn perthynas â hawliau plant a gwneud cwyn
- Deall rôl pobl broffesiynol allweddol eraill fel eiriolwyr annibynnol a swyddogion adolygu annibynnol
- Edrych ar ffyrdd o eiriol ar ran plant a phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Dangos sut fyddan nhw'n eiriol ar ran y plentyn sydd mewn gofal.

Iechyd a Diogelwch

Dylai hyfforddiant iechyd a diogelwch gael ei ddarparu gan unigolyn cymwys o asiantaeth a gydnabyddir ac sydd wedi ei ardystio i ddarparu hyfforddiant iechyd a diogelwch. Bydd deilliannau dysgu'n cael eu cyfeirio gan y cwrs penodol a ddarperir gan wasanaethau maethu unigol.

Cymorth Cyntaf

Dylai hyfforddiant cymorth cyntaf gael ei ddarparu gan unigolyn cymwys o asiantaeth a gydnabyddir ac sydd wedi ei ardystio i ddarparu cymorth cyntaf. Bydd deilliannau dysgu'n cael eu cyfeirio gan y cwrs penodol a ddarperir gan wasanaethau maethu unigol.



YCHWANEGOL

Mae'r cyfleoedd yma i ddysgu a datblygu yn adeiladu ar y sylfeini craidd ac yn adlewyrchu anghenion datblygiad gofalwyr maeth unigol.

Efallai bydd angen cyfleoedd ychwanegol i ddysgu ar ofalwyr maeth ar unrhyw adeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion y Plant a Phobl Ifanc yn eu gofal.

Cydnabyddir efallai bydd angen cyfleoedd eraill y tu allan i'r fframwaith hon er mwyn cwrdd ag anghenion penodol.

Symud Plant ymlaen at Fabwysiadu

- Edrych ar effaith y broses hon ar y plant a'r oedolion sydd ynghlwm ac edrych ar ffyrdd o reoli teimladau
- Edrych ar ffyrdd o helpu plant a phobl Ifanc i ddelio â theimlad o golled o ganlyniad i newid
- Nodi strategaethau ymarferol i helpu pawb sydd ynghlwm wrth y trosglwyddiad mewn dull cadarnhaol

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio sut y byddan nhw'n cadw anghenion y plentyn wrth galon y broses o symud ymlaen.

Ymlyniad Datblygedig a Thrawma

- Dealltwriaeth bellach o'r cysylltiadau rhwng problemau ymlyniad, effaith trawma, datblygiad gohiriedig ac ymddygiad ymddangosiadol i adnabod sut mae hyn wedi effeithio ar y plant yn eich gofal
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddulliau o ymlyniad ar ddatblygiad yr ymennydd a'r effaith ar iechyd meddwl
- Ystyried arfer er mwyn adnabod sut mae helpu plant i ddatblygu perthnasau diogel a datblygu'n gydnherth
- Ystyried yr effaith mae gofalu am blant gydag anawsterau o ran ymlyniad wedi cael aelodau'r teulu maeth ac ail-ystyried strategaethau ar gyfer gofalu am eu hunain
- Edrych i weld pan gefnogaeth/ ymyraethau y mae modd eu defnyddio i gwrdd ag anghenion datblygiadol y plant mewn gofal

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio effaith trawma ar y plentyn mewn gofal a sut byddan nhw'n darparu gofal ar sail eu dealltwriaeth o theori ymlyniad

Rhianta Therapiwtig

- Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhianta 'safonol' a rhianta 'therapiwtig'
- Ystyried amrywiaeth o strategaethau er mwyn helpu i reoli plant ag anawsterau gydag ymlyniad
- Edrych ar y syniad o rianta mewn cytgordd, er enghraifft, egwyddorion PACE
- Meddwl mewn ffordd gyfannol ynglŷn â sut i gwrdd ag anghenion plant sydd wedi dioddef trawma, er enghraifft, effaith yr amgylchedd
- Ystyried eu dulliau ymlyniad presennol o rianta a thrafod pwysigrwydd y persbectif tymor hir a hunanofal

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio a defnyddio technegau rhianta therapiwtig i gwrdd ag anghenion y plentyn yn ymwneud ag ymlyniad.

Diogelwch Digidol ac Ymwybyddiaeth o Gyfryngau Cymdeithasol

- Cynyddu gwybodaeth o'r ffyrdd amrywiol sydd gan blant a phobl Ifanc o ymgysylltu â'r byd rhithiol
- Codi ymwybyddiaeth o'r buddion a chyfleoedd y mae technolegau digidol yn eu cynnig i blant a phobl Ifanc mewn gofal
- Edrych ar broblemau diogelwch posibl i Blant a Phobl Ifanc sy'n defnyddio technolegau digidol
- Adnabod y sgiliau craidd y gall gofalwyr maeth eu defnyddio i gefnogi pobl ifanc i weithredu'n ddiogel yn y byd rhithiol

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio sut maen nhw'n cydbwyso cyfleoedd a diogelwch mewn perthynas â'r defnydd o dechnolegau digidol i'r plentyn sydd mewn gofal.

Meibion a Merched Maethu a Chynnwys y Teulu Estynedig

- Cydnabod rôl allweddol meibion a merched mewn perthynas â lleoliadau maethu llwyddiannus
- Ystyried yr effaith ar feibion a merched ac ystyried sut mae modd cwrdd â'u hanghenion
- Ystyried y teulu estynedig a sut mae materion fel cyfrinachedd yn cael eu trin, yn enwedig pan eu bod yn chwarae rôl gefnogol allweddol
- Edrych ar y ffyrdd o gydbwyso eu plentyn eu hunain gydag anghenion y plentyn mewn gofal

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod ffyrdd o gydbwyso anghenion eu plentyn eu hunain gydag anghenion y plentyn mewn gofal.

Gofalu am Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol

- Deall y ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol o ran addysg, iechyd ac anghenion gofal, asesiadau a chynlluniau
- Edrych ar y problemau sydd ynghlwm wrth gydweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd ar gyfer deilliannau ar y cyd
- Trafod ffyrdd o baratoi at fod yn oedolyn o'r blynyddoedd cynnar
- Rhoi canllawiau wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio anghenion ychwanegol y plentyn mewn gofal a sut fyddan nhw'n ymateb i'r rhain.

Strategaethau Uwch i Ymdrin ag Ymddygiad Heriol

- Rhoi trosolwg o'r modelau allweddol ar gyfer rheoli ymddygiad heriol gan blant mewn gofal
- Cael dealltwriaeth o amrywiaeth o strategaethau, er enghraifft, Gwrthsafiad Di-drais
- Rhoi cyfle i roi theori ar waith

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Gwybod pam maen nhw'n defnyddio techneg rheoli ymddygiad penodol gyda'r plentyn mewn gofal.

Gofalu Mwy Diogel Uwch a Rheoli Risgiau

- Cael cyfle i adolygu arfer gofalu mwy diogel y teulu maeth a rhannu strategaethau
- Edrych ar y syniadau o risg a niwed yn y cyd-destun hwn
- Egluro rôl y gofalwyr maeth mewn perthynas ag awdurdod dirprwyedig, asesiad risg a rhannu gwybodaeth

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod y ffyrdd o reoli risgiau i'r plentyn mewn gofal er mwyn eu diogelu wrth gefnogi eu datblygiad.

Cam-drin Plant yn Rhywiol

- Cynyddu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol a chydnabod yr effaith ar ymddygiad, datblygiad plant a hunan-barch
- Annog cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus wrth drafod materion rhywiol ac ymddygiadau gyda phlant
- Datblygu strategaethau sy'n helpu cadw'u teuluoedd a phlant maeth yn ddiogel
- Gwybod beth i'w wneud os bydd amheuaeth bod plentyn mewn perygl o gam-drin o'r math yma

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio sut fyddan nhw'n diogelu plentyn mewn gofal sy'n agored i gamdriniaeth rywiol.

Pan Fydda' i'n Barod

- Deall y canllawiau statudol, canllawiau ar arfer da a fframweithiau asiantaethau ar gyfer Pan Fydda' i'n Barod
- Ystyried materion sy'n codi rhwng y trosglwyddiad o leoliad maeth a threfniant Pan Fydda' i'n Barod
- Trafod ffyrdd o gefnogi gweithredu trefniadau Pan Fydda' i'n Barod yn effeithiol yn lleol
- Trafod a rhannu syniadau i gefnogi arfer gorau

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Nodi buddion trefniadau Pan Fydda' i'n Barod a'u rôl wrth baratoi ar gyfer y rhain.

Hyrwyddo Annibyniaeth

- Deall y cyd-destun cyfreithiol a pholisi mewn perthynas â byw'n annibynnol a Phan Fyddda' i'n Barod
- Deall rolau a chyfrifoldebau pobl broffesiynol y tîm o amgylch y plentyn
- Cael hyder o ddeall anghenion y Person Ifanc a rôl y gofalwr maeth wrth eu cefnogi.

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Esbonio sut fyddan nhw'n paratoi person ifanc ar gyfer byw'n annibynnol.

Byw gyda Phobl Ifanc yn eu Harddegau

- Deall datblygiad ymennydd pobl ifanc, aeddfedrwydd a'r effaith ar ymddygiad
- Edrych ar amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu y mae modd eu defnyddio i gynnal perthnasau, er enghraifft, trafod rheolau a ffiniau
- Deall pwysigrwydd datblygiad cymdeithasol a chyflwyno eich hun yn ystod glaslencyndod
- Edrych ar sut i helpu pobl ifanc yn eu harddegau i reoli trosglwyddiadau a chael y gefnogaeth briodol

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio anghenion pobl ifanc yn eu harddegau gyda mwy o ddealltwriaeth ynglŷn â sut fyddan nhw'n cwrdd â nhw

Chwarae Therapiwtig

- Edrych ar syniadau craidd Ymlyniad ac ymchwil cyfredol i'r ymennydd fel sylfaen ar gyfer darparu ymyrraeth chwarae yn seiliedig ar berthnasau
- Adnabod technegau, strategaethau a theclynnau a allai gael eu cyflwyno i sesiynau chwarae
- Edrych ar sut all chwarae gwrdd ag anghenion plant sydd ag anawsterau emosynol ac ymddygiadol, plant sydd ag anhwylderau datblygiadol (fel ASA, ADCG)

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Defnyddio'r ymyrraethau ar gyfer anghenion penodol y plentyn mewn gofal.

Deall Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

- Cynyddu gwybodaeth o bynciau iechyd meddwl penodol fel hunan-niwed, anhwylderau bwyta a meddyliau am hunanladdiad
- Deall rôl y gofalwr maeth wrth hybu iechyd meddwl a lles plant mewn gofal
- Cael ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl Ifanc sydd ag anawsterau iechyd meddwl

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Disgrifio beth fyddan nhw'n gwneud i gefnogi plant a phobl Ifanc sy'n wynebu problemau iechyd meddwl.

Cymryd Gofal Ohonoch Chi'ch Hunain ac o'ch Gilydd

- Deall effaith straen eilradd wedi trawma
- Adnabod arwyddion a symptomau nodweddiadol straen yn eu hunain ac mewn eraill
- Edrych ar y strategaethau ar gyfer rheoli a lleihau straen

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod eu hymateb eu hunain i straen a disgrifio dulliau o ymdopi er mwyn cadw cydbwysedd.

Sylweddau a Dibyniaeth

- Datblygu dealltwriaeth o beth yw sylweddau a'u heffeithiau ar unigolion
- Edrych ar y gyfraith mewn perthynas â sylweddau anghyfreithlon
- Y peryglon sydd ynghlwm wrth camddefnydd sylweddau
- Cael dealltwriaeth o effaith camddefnydd sylweddau ar y gallu i fod yn rhiant a'r effaith tymor byr a thymor hir ar blant
- Dysgu am yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr sylweddau a'r rheiny sy'n gysylltiedig â nhw

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod a disgrifio effeithiau camddefnydd sylweddau er mwyn cefnogi'r plentyn neu berson ifanc yn briodol.

Cam-drin Domestig

- Datblygu dealltwriaeth o beth yw cam-drin domestig a'r effaith ar unigolion
- Edrych ar y gyfraith mewn perthynas â cham-drin domestig
- Cael dealltwriaeth o effaith cam-drin domestig ar blant a sut i'w cefnogi i oresgyn y trawma

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Cydabod a disgrifio effeithiau cam-drin domestig i gefnogi'r plentyn neu berson ifanc yn briodol.

Llinellau Sirol

- Edrych ar ddiwylliant gangiau, effeithiau'r Cyfryngau Cymdeithasol, cerddoriaeth a therminoleg
- Cael dealltwriaeth o ecsbloetio troseddol a'r broses o baratoi
- Datblygu strategaethau i sicrhau fod pobl ifanc yn cael eu diogelu

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Adnabod, ymateb a chefnogi pobl ifanc sy'n cael eu paratoi ar gyfer cael eu hecsbloetio ar gyfer troseddau.

Sgiliau Llys

- Ystyried a gwerthfawrogi rôl y gofalwr maeth fel tyst arbenigol
- Datblygu'r hyder a'r sgiliau ymarferol ar gyfer rhoi tystiolaeth yn y llys
- Datblygu sgiliau o ran cofnodi gwybodaeth fel rhan o asesiad

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Rhoi gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Dysgu ac ystyried cefndiroedd amrywiol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Dysgu am ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r pwnc hwn
- Hyrwyddo unigrywiaeth pob plentyn a pherson ifanc
- Trafod y mathau gwahanol o wahaniaethu ac ystyried strategaethau i ymdrin â nhw

Canlyniad: Bydd y gofalwr maeth yn gallu:

Trafod eu dealltwriaeth o wahaniaethu a dangos eu gallu i hyrwyddo arferion gwrth-wahaniaethol.

PENODOL

Efallai bydd angen i ofalwyr maeth gael cyfleoedd penodol i ddysgu a datblygu i gwrdd ag anghenion y plant sy'n cael eu rhoi yn eu gofal neu eu datblygiad personol eu hunain. Gellir manteisio ar y rhain ar unrhyw adeg yn ystod eu taith drwy'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ar ôl Cymeradwyaeth.

Mae'r cyfleoedd penodol yma'n helaeth ond gallan nhw gynnwys:

- Lleoliadau Rhiant a Phlentyn
- Seibiannau Byr/ Gofal Cefnogol
- Gofalu am Blant a Phobl Ifanc sy'n Ceisio Lloches ar eu Pennau'u Hunain
- Radicaleiddio
- Gofalu am blant sydd wedi profi cam-drin rhywiol
- Gofalu am blant sydd ag anghenion penodol e.e. anabledau
- Meithrin Newidiadau
- Hyfforddi'r Hyfforddwr
- Maethu Wrth aros Prawf
- Mentora Cymheiriaid
- Ymwybyddiaeth tueddiad rhywiol a hunaniaeth rhyweddol
- Rhyw a Pherthnasau

CANLLAW AR FAPIO DYSGU

03

Canllawiau ar fapio dysgu o Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i ofalwyr maeth yng Nghymru.



FFRAMWAITH SEFYDLU CYMRU GYFAN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

Cynlluniwyd y Fframwaith Dysgu a Datblygu i adlewyrchu egwyddorion allweddol y Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AWIFHSC). Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, mae'r fframwaith a'r fframwaith cymhwyster diwygiedig yn cael eu cydnabod fel arfer gorau a dylent ysbrydoli dysgu a datblygu gofalwyr maeth ar ôl eu cymeradwyo. Felly mae angen i'r fframwaith cenedlaethol hon gael ei gysylltu â datblygiadau dilynol gan Ofal Cymdeithasol Cymru gan mai un o argymhellion allweddol Gofal Cymdeithasol Cymru oedd:

'Sicrhau fod y fframwaith yn cael ei fapio i'r Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cymwysterau a'r fframwaith sy'n cael ei datblygu gan Ofal Cymdeithasol Cymru'

Cyflwynwyd y fframwaith newydd yn Ebrill 2018 ac mae hi wedi ei chynllunio ar gyfer pob gweithiwr gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi strwythur ar gyfer sefydlu mewn ffordd gyffredin ar draws Cymru, gan amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae pobl broffesiynol angen eu cael yn ystod eu cyfnod sefydlu. Mae gan bob Rheolwr Maethu gyfrifoldeb i sicrhau fod eu gofalwyr maeth sydd newydd eu cymeradwyo yn derbyn cyflwyniad gwydn, strwythuredig gan ddefnyddio'r fframwaith yma.

Does dim gofyn i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond mae disgwyl i ofalwyr newydd gwblhau rhannau perthnasol y fframwaith sefydlu (adrannau 2, 4, 5, 6, a 7). Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod y bydd efallai'n cymryd dros chwe mis i ofalwyr maeth gwblhau'r fframwaith gyflwyno oherwydd natur y rôl maethu. Bydd y fframwaith sefydlu ond yn cael ei chymeradwyo unwaith y bydd yr holl ddeilliannau wedi eu cwblhau.

O Fedi 2019 bydd y cymhwyster 'craidd' ar gyfer yr holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol lefel 2 a 3 yng Nghymru yn adlewyrchu elfennau gwybodaeth gyffredinol, dealltwriaeth ac arferion y fframwaith sefydlu. Mae hyn yn golygu y bydd gofalwyr maeth newydd, wrth iddyn nhw ymgymryd â'r fframwaith sefydlu, yn dechrau casglu tystiolaeth a all gael ei defnyddio tuag at gael y cymwysterau yma. Dylai gofalwyr maeth gael eu cefnogi a'u hannog i ymgymryd â'r fframwaith fel rhan o'u datblygiad cyn dechrau ar gymwysterau eraill.



CROESGYFEIRIO DYSGU AR DRAWS Y DDAU FFRAMWAITH YMA

Bydd yn fuddiol i ofalwyr maeth sydd newydd eu cymeradwyo ddechrau ar y fframwaith ar y cyfle cyntaf posibl. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu llyfrau cofnod er mwyn cofnodi llwydo'r deilliannau dysgu ar gyfer pob adran. Mae modd eu lawrlwytho o'u gwefan <https://socialcare.wales/collections/all-wales-induction-fframwaith-for-health-and-social-care>

Bydd y cofnodion wedi eu cwblhau yn rhoi tystiolaeth ar gyfer nifer o'r deilliannau dysgu o fewn fframwaith dysgu a datblygu FfMC. Er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu er mwyn osgoi ailadrodd, mae ymarfer mapio cynhwysfawr wedi ei gwblhau er mwyn cefnogi rheolwyr a gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo i weithredu tystiolaeth o ddysgu i'r ddau fframwaith. Mae'r tabl canlynol yn dangos

- Colofn 1: Adrannau'r fframwaith Cymru gyfan a'r safonau y mae'n rhaid i ofalwyr maeth ddangos yn eu llyfrau cofnod
- Colofn 2: Pynciau Dysgu a Datblygu FfMCy mae modd cyflwyno tystiolaeth ohonynt gan ddefnyddio llyfrau cofnod GCC

Serch hynny, bydd llawer o'r dysgu yma'n gyffredinol i Blant a Phobl Ifanc i gyd, felly bydd angen cyfleoedd maethu penodol ar ofalwyr maeth i ddysgu a datblygu:

FFRAMWAITH SEFYDLU CYMRU GYFAN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL WEDI EI FAPIO I FFRAMWAITH DYSGU A DATBLYGU Y FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL AR GYFER GOFALWYR MAETH YNG NGHYMRU

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Fframwaith Dysgu a Datblygu'r FfMC
Adran 2: Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)	
1. Deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac arfer	Deddfwriaeth Sylfaenol Ymsefydlu Lleol (gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau)
2. Dulliau ar sail hawliau	Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiad Eiriolaeth a Hawliau Plant
3. Dulliau â'r plentyn yn ganolog	Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Datblygiad plant
4. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
5. Cymryd risgiau cadarnhaol	Gofalu mwy diogel a honiadau Gofalu Mwy Diogel Uwch a Rheoli Risgiau
6. Perthnasau cadarnhaol a ffiniau proffesiynol	Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiad Meibion a Merched Maethu a Chynnwys y Teulu Estynedig
7. Cyfathrebu	Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth Cydraddoldeb ac amrywiaeth Byw gyda phobl yn eu harddegau
8. Yr iaith Gymraeg a diwylliant	Deddfwriaeth Sylfaenol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
9. Dulliau cadarnhaol i leihau arferion cyfyngol mewn iechyd a gofal cymdeithasol	Gofalu mwy diogel a honiadau Deall ymddygiad heriol a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol
10. Newid a throsglwyddiadau mewn iechyd a gofal cymdeithasol	Trosglwyddiadau i blant a phobl Ifanc Pan Fydda' i'n Barod Symud Plant ymlaen at Fabwysiadu Hybu Annibyniaeth
11. Ystyriaeth	(Gwelir hyn trwy gymryd rhan mewn sesiynau goruchwyllo)

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	NFF Learning and Development Framework
Adran 4: Iechyd A Lles (plant a phobl ifanc)	
1. Lles	Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Deall ymddygiad heriol a chyfathrebu Cefnogi addysg a datblygiad Diogelwch Digidol ac ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol Hybu Iechyd Da a Lles
2. Ffactorau sy'n effeithio iechyd a lles	Datblygiad plant Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Trosglwyddiadau i blant a phobl Ifanc Deall ymddygiad heriol a chyfathrebu Cefnogi addysg a datblygiad Diogelwch Digidol ac ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc Cam-drin domestig Sylweddau a dibyniaeth
3. Amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc	Datblygiad plant Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Gofalu mwy diogel a honiadau Trosglwyddiadau i blant a phobl Ifanc Deall ymddygiad heriol a chyfathrebu Cefnogi addysg a datblygiad Diogelwch digidol ac ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol Deall iechyd meddwl plant a phobl ifanc Ail-rianta Therapiwtig
4. Chwarae	Datblygiad plant Datblygu sylfaen sicr a hybu ymlyniad Gwaith taith bywyd Cefnogi addysg a datblygiad Chwarae therapiwtig
5. Lleferydd, iaith a chyfathrebu	Datblygiad plant Deall ymddygiad heriol a chyfathrebu Cefnogi addysg a datblygiad
6. Anghenion cefnogaeth ychwanegol	Datblygiad plant Gofalu am blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
7. Cyngor, canllaw a chefnogaeth	Eiriolaeth a hawliau plant
8. Rhoi meddyginiaeth	Cymorth cyntaf
9. Gofal Personol	Hybu Iechyd Da a Lles Datblygiad plant
10. Maeth a hydradiad	Hybu Iechyd Da a Lles Datblygiad plant
11. Hybu Iechyd Da a Lles	Gofalu amdanoch chi'ch hunain a'ch gilydd Hybu Iechyd Da a Lles

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Fframwaith Dysgu a Datblygu FfMC
Adran 5: Arfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol	
1. Rolau a chyfrifoldebau'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol	Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth
2. Gweithio mewn Partneriaeth	Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiad
3. Gweithio fel Tîm	Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth
4. Trin Gwybodaeth	Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth
5. Ymddygiad personol gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol	Gweithio gyda theuluoedd biolegol a chysylltiad
6. Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Sgiliau llys Strategaethau uwch i ddelio ag ymddygiad heriol Ymlyniad a thrawma datblygedig
Adran 6: Diogelu unigolion	
1. Fframweithiau Deddfwriaethol ar gyfer diogelu	Diogelu
2. Diogelu unigolion rhag niwed, cam-drin neu esgeulustod	Diogelu
3. Ffactorau, sefyllfaoedd a gweithrediadau a allai arwain at niwed, cam-drin neu esgeulustod	Diogelu Diogelwch Digidol ac ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol Llinellau Sirol Ecsbloetio Plant yn Rhywiol Cam-drin domestig Sylweddau a dibyniaeth
4. Adrodd a chofnodi mewn perthynas â diogelu	Diogelu Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth
Adran 7: Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol	
1. Iechyd a diogelwch yn y gweithle	Gofalu mwy diogel a honiadau
2. Asesiadau risg ar gyfer iechyd a diogelwch	Iechyd a diogelwch
3. Diogelwch tân	Iechyd a diogelwch
4. Symud a thrin; symud a lleoli	Iechyd a diogelwch
5. Cymorth cyntaf brys	Cymorth cyntaf
6. Atal a rheoli heintiau	Iechyd a diogelwch
7. Diogelwch bwyd	Iechyd a diogelwch
8. Sylweddau peryglus	Iechyd a diogelwch
9. Diogelwch yn y lleoliad gwaith	Iechyd a diogelwch
10. Rheoli straen	Gofalu amdanoch chi'ch hunain a'ch gilydd

COFNOD DYSGU PERSONOL A CHYNLLUN DATBLYGIAD

04

Bydd y cofnod hwn yn rhan o'r broses goruchwyllo ac adolygiad maethu blynyddol. Felly, dylai adlewyrchu dysgu blaenorol; nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad pellach; rhoi modd i chi gynllunio eich dysgu a dangos eich datblygiad proffesiynol parhaus.

Gall gweithgareddau dysgu gynnwys (heb fod yn gyfyngedig i) rhaglenni hyfforddiant ffurfiol, digwyddiadau, mentora gan gymheiriaid, ymgynghoret broffesiynol, trafodaethau gyda gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo neu unrhyw berson proffesiynol perthnasol arall, astudiaeth ar-lein neu hunan-dywysedig.



NODIADAU CANLLAW I GYNORTHWYO CWBLHAU

Mae'r Cofnod Dysgu Personol a Chynllun Datblygiad wedi ei greu er mwyn mynd ochr yn ochr â Fframwaith Dysgu a Datblygu'r FfMC ac mae angen ei gwblhau gan ddarllen y ddogfen honno.

Amcan

Amcan y cofnod yw ei fod yn unigol ac yn annog gofalwyr maeth i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain; gan ystyried ar bob cam sut mae dysgu'n effeithio ar eu gallu i ofalu am blentyn, am eu hunain a'u teuluoedd.

Dylid defnyddio'r ddogfen yma fel teclyn i:

- Gofnodi dysgu a datblygiad pob gofalwr maeth yn flynyddol, mewn ffordd gyson
- Sicrhau fod y wybodaeth yma'n cael ei bwydo i mewn i'r broses o oruchwylio gofalwyr maeth ac adolygu
- Datblygu sylfaen cynllun ar gyfer dysgu a datblygu parhaus gofalwyr maeth.

Strwythur

Mae'r ddogfen mewn 3 rhan:

1. Proffil o ddysgu blaenorol – mae hyn yn cofnodi dysgu a gwblhawyd cyn cymeradwyaeth fel gofalwr maeth/ cyflwyno'r fframwaith hon
2. Cofnod dysgu parhaus
3. Adolygiad o ddysgu a chynllun ar gyfer datblygiad pellach

Pwy ddylai gwblhau hyn?

Mae hwn yn gofnod gofalwr maeth unigol, ac nid yw'n gofnod ar gyfer aelwyd gofalwyr maeth. Mae angen felly iddo gael ei gwblhau parthed pob gofalwr maeth a gymeradwywyd yn yr aelwyd. Dylai gael ei ddefnyddio fel teclyn gwaith parhaus trwy gydol cyfnod goruchwyllo ac i gefnogi'r broses adolygu.

Pryd ddylai'r Cofnod Dysgu Personol a Chynllun Datblygiad gael ei gwblhau?

- Adran 1 – ar y cyfle cyntaf cyn neu ar ôl cymeradwyaeth
- Adran 2 – cyn gynted â phosibl ar ôl i'r dysgu ddigwydd a'i drafod dan oruchwyliaeth
- Adran 3 – fel rhan o'r broses adolygu gofalwr maeth

Adran 1 – Cofnod o ddysgu blaenorol

Dylai'r adran yma gael ei chwblhau gan y gofalwr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo gyda'i gilydd. Ble mae gofalwr maeth newydd ei gymeradwyo, rhaid bod y trefniadau mewn grym i sicrhau fod yr argymhellion ar gyfer dysgu a datblygu yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol o'r asesiad o'r gofalwr maeth i'r cynllun dysgu a datblygu.

Adran 2 – Cofnod o Ddysgu a Datblygu Parhaus

Bwriedir i'r adran hon gael ei chwblhau gan y gofalwr maeth, wrth i'r dysgu ddigwydd. Mae angen i hyn gael ei wirio gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo. Bwriedir iddo fod yn declyn i gefnogi gofalwyr maeth i ystyried eu dysgu a pharatoi ar gyfer goruchwyliaeth. Dylai'r cofnod fod ar gael ym mhob sesiwn goruchwyllo i'w drafod gan y gofalwr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo. Dylai gwasanaethau sicrhau fod ganddyn nhw ddulliau effeithiol mewn grym i gynorthwyo a chofnodi'r drafodaeth yma mewn sesiynau goruchwyllo. Cyn cymeradwyo'r gweithgaredd dysgu, rhaid bod gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo fod yn hyderus fod y gofalwr maeth yn gallu dangos dysgu a dangos sut fydd hyn yn effeithio ar eu harfer yn y dyfodol. Gan fod Dysgu a Datblygu yn unigol i bob gofalwr maeth, rhaid i gofnodion, ystyriaeth a goruchwyliaeth ymestyn at bob gofalwr maeth yn y teulu.

Adran 3 – Adolygu dysgu a datblygiad pellach

Bwriedir i'r adran hon gael ei chwblhau ar ddiwedd y cyfnod adolygu (pob blwyddyn ar y mwyaf). Mae'n rhan o baratoi ar gyfer adolygiad gofalwyr maeth o dan Reoliadau Paneli Maethu (Cymru) 2018. Mae'r adran hon yn cynnwys darn i'r gofalwr maeth ei gwblhau fel rhan o'r paratoad ar gyfer yr adolygiad a ddylai gael ei drafod wedyn gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo. Mae yna adran derfynol i'w chwblhau ar y cyd er mwyn edrych a chytuno ar gynlluniau datblygiad ar gyfer y dyfodol. Gall gwasanaethau ddefnyddio'r ddogfen wedi ei chwblhau i gefnogi unrhyw adroddiadau a ddarperir fel rhan o'r broses adolygu a dylai'r gofalwr maeth a'r gwasanaeth gadw copi.

Dylai'r cofnod hwn gael ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â sesiynau goruchwyllo rheolaidd er mwyn adlewyrchu anghenion dysgu sy'n codi o ddigwyddiadau arwyddocaol yn yr aelwyd maethu fel plant newydd yn cael eu lleoli yno, honiadau neu unrhyw newidiadau mewn bywyd i'r gofalwr maeth.

Gofalwr maeth	Dyddiad cymeradwyo
Gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo	Dyddiad Cychwyn y cofnod (dyddiad cymeradwyo neu ddyddiad yr adolygiad diwethaf)
Darparwr Maeth	Dyddiad Gorffen y cofnod (dyddiad yr adolygiad blynyddol nesaf)

1. COFNOD O DDYSGU BLAENOROL

Pa gymwysterau perthnasol, hyfforddiant neu weithgareddau trosglwyddadwy eraill ydych chi eisoes wedi eu cwblhau? *Rhowch dystiolaeth os gwelwch yn dda*

Ydych chi'n gweithio tuag at gymhwyster ffurfiol cydnabyddedig? (e.e. Fframwaith Sefydlu neu Fframwaith Cymwysterau a Chredyd? Cynhwyswch y dyddiadau cychwyn a gorffen, modiwlau etc.)

Pa anghenion datblygiad pellach sydd wedi eu nodi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod? (Gall hyn gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, leiafswm nifer oriau, pynciau penodol, grwpiau etc.). I ofalwyr maeth sydd newydd eu cymeradwyo dylai hyn gynnwys y cynllun datblygiad personol a gynhyrchwyd ar adeg eu hasesiad.

2. COFNOD O DDYSGU A DATBLYGU PARHAUS

(I'w gwblhau gan y gofalwr maeth a'i wirio gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwyllo yn ystod Goruchwyliaeth)

Dyddiad y gweithgaredd dysgu	Oriau o ddysgu	Dull o ddysgu (e.e. mynychu hyfforddiant, darllen, ymchwil)	Tystiolaeth (e.e. tystysgrifau)	Llofnod a dyddiad (gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo)
Beth wnes i ddysgu?			Pa wahaniaeth fydd hyn yn gwneud i fy arferion maethu a'r plant sydd yn fy ngofal?	

Dyddiad y gweithgaredd dysgu	Oriau o ddysgu	Dull o ddysgu (e.e. mynychu hyfforddiant, darllen, ymchwil)	Tystiolaeth (e.e. tystysgrifau)	Llofnod a dyddiad (gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo)
Beth wnes i ddysgu?			Pa wahaniaeth fydd hyn yn gwneud i fy arferion maethu a'r plant sydd yn fy ngofal?	

Dyddiad y gweithgaredd dysgu	Oriau o ddysgu	Dull o ddysgu (e.e. mynychu hyfforddiant, darllen, ymchwil)	Tystiolaeth (e.e. tystysgrifau)	Llofnod a dyddiad (gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio)
Beth wnes i ddysgu?			Pa wahaniaeth fydd hyn yn gwneud i fy arferion maethu a'r plant sydd yn fy ngofal?	

Dyddiad y gweithgaredd dysgu	Oriau o ddysgu	Dull o ddysgu (e.e. mynychu hyfforddiant, darllen, ymchwil)	Tystiolaeth (e.e. tystysgrifau)	Llofnod a dyddiad (gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio)
Beth wnes i ddysgu?			Pa wahaniaeth fydd hyn yn gwneud i fy arferion maethu a'r plant sydd yn fy ngofal?	

3. ADOLYGIAD DYSGU A CHYNLLUN DATBLYGIAD PELLACH

(I'w gwblhau ar ddiwedd y cyfnod blynyddol/cyfnod sy'n cael ei adolygu)

Ydy lleiafswm y gofynion ar gyfer datblygiad proffesiynol wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod a bennwyd?

Gofalwr maeth

Gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo

Sut mae'r dysgu wedi adeiladu ar ben y wybodaeth a'r sgiliau i gwrdd ag anghenion y plant mewn gofal ac yn gwella deilliannau?

Gofalwr maeth

Gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo

Pa anghenion datblygiad pellach sydd wedi eu nodi ar gyfer y flwyddyn nesaf?

Gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo a'r Gofalwr Maeth i drafod a chytuno



National
Fostering
Framework
Fframwaith
Maethu
Cenedlaethol

National Fostering Framework

c/o AFA Cymru
25 Windsor Place
Caerdydd
CF10 3BZ

F: 029 2076 1155
www.afacymru.org